# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones




Rhifyn 39 - Haf 2018

# GOLYGYDDOL

Bu yn aeaf hir a chawsom fwy o eira nac ers blynyddoedd ond bu'r gwanwyn yn un da o ran teithiau y Gymdeithas. Fel y gwelwch o'r adroddiadau sydd wedi eu cynnwys yn y rhifyn hwn, fe gawsom ddiwrnodau difyr iawn yn crwydro ar hyd a lled Gogledd Cymru. Cofiwch bod mwy o lawer o luniau o'r teithiau hyn a theithiau eraill i'w gweld ar ein gwefan.

Unwaith eto y mae naws go ryngwladol i gynnwys y rhifyn hwn ac yr ydym yn ddiolchgar i Ieuan a Marc am rannu eu hatgofion am eu hanturiaethau â ni. Ond y mae straeon Dafydd a Dewi yn dangos nad oes yn rhaid bob amser droi ymhell oddi cartref er mwyn gweld rhywbeth diddorol. Cofiwch y byddwn bob amser yn falch o dderbyn adroddiadau gan ein darllenwyr am unrhyw beth diddorol a welwyd.

**Cynnwys:**


Taith Cwm Cywarch *Gareth Jones* ........................................................ 3

Adar a chreaduriaid difyr Sambia *Ieuan Bryn* ............................................ 6

Taith yn ardal Llanberis *Gareth Jones* .................................................. 10

Taith Nebo *Twm Elias* ...................................................................... 12

Cadw trefn ar y plantos *Dafydd Paul* ................................................... 16

Adarydda yn yr anialwch *Marc Hughes* ................................................. 21

EWD ac ESV *Dewi Lewis* .................................................................. 23

Gweithgareddau'r tymor ..................................................................... 24


**Llun y clawr**: Rhys Gwynn a'i ddarganfyddiad – stori tud.3

**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams + Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@outlook.com)
**Trysorydd:** Huw Dafydd
**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk

Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws-y-coed**

Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

## Taith Cwm Cywarch, Mai 12fed



I lawer ohonom, carreg filltir ar y ffordd i lawr i Gaerdydd ydi Dinas Mawddwy – ardal nad ydym wedi treulio amser ynddi er mwyn dod i'w hadnabod. Yr oedd yn hen bryd felly i'r Gymdeithas drefnu taith yn yr ardal honno – yn arbennig o gofio ffyddlondeb Alun 'Bontddu' i'n teithiau. Felly fe ofynnwyd I Alun a allai helpu i drefnu taith i ni o'i 'ddrws cefn'.

Trefnodd Alun i **Rhys Gwynn**, warden **Parc Cenedlaethol Eryri** ein harwain. Ers 2004, Rhys sy'n gyfrifol am blwyfi Ganllwyd, Llanfachreth, Brithdir, Rhydymain, Corris a Dolgellau. Fe fu Rhys yn ein harwain ar sawl taith ar hyd yr afon Mawddach dros y blynyddoedd diwethaf ac fe fuont yn deithiau eithriadol gofiadwy. Yr oedd hen edrych ymlaen felly at y daith hon yng Nghwm Cywarch – cwm bychan i'r dwyrain o Ddinas Mawddwy, sy'n codi o'r ffordd i Fwlch y Groes.

Gyda Rhys yn ein harwain, yr oedd cyfle i ddysgu nid yn unig am adar ond hefyd am hanes y cwm – ei bobol, diwylliant, ffermydd, hanes diwydiannol, daeareg ac wrth gwrs y cyfoeth enwau a geir yno. Estynnodd Rhys fap anferth o'i fan a chawsom sgwrs ddifyr iawn cyn cychwyn ar ein taith.



Ond daeth yr ail beth a estynnodd Rhys o'r fan yn dipyn o sioc i ni! Yr oedd ganddo **foda'r gwerni** wedi ei stwffio *(llun y clawr)*. Yr oedd wedi ei gael o'r ganolfan ail-gylchu yn Nolgellau. Mae'n rhaid bod rhywun wedi



bod yn gwagio tŷ, yn gweld dim gwerth iddo ac felly wedi cael gwared ohono.

Wrth edrych yn ofalus arno, gwelodd Rhys fod y gwaelod wedi ei wneud o *papier-mâché* – ac yno yr oedd cyfrinach wedi ei chuddio. Gwelodd y dyddiad **1891** ar y papur a phapur newydd o ardal Aberystwyth ydoedd. Gwnaeth dipyn o waith ymchwil a chafodd mai yn Aberystwyth yr oedd un o brif gwmnïau tacsidermi Oes Fictoria – y teulu **Hutchings**. Sefydlwyd y cwmni gan James Hutchings yn 1860au ac fe'i olynwyd ef gan ei fab a'i ferch ac wedyn ei wyresau a bu'r cwmni yn weithredol hyd 1942. Nid yn unig yr oeddent yn gwerthu anifeiliaid wedi eu stwffio, yr oeddent hefyd yn gwerthu gynnau a ffwr a phlu anifeiliaid ar gyfer hetiau ac ati. Yn eu siop yn Heol y Bont, Aberystwyth yr oedd pob math o anifeiliaid ecsotig gan gynnwys arth yn dal plât arian! Yr oedd ganddynt hefyd siop yn Llundain.

Yr oedd i'r cwmni enw da fel un o'r cwmnïau tacsidermi gorau ym Mhrydain. Arbenigent mewn adar môr ond yr oeddent wedi gweithio ar anifeiliaid o bob math a maint – gan gynnwys teigrod a hyd yn oed eliffant. Yr oedd llawer o'u gwaith yn ymateb i archeb benodol a byddent yn cyflogi saethwyr lleol i ddarganfod a lladd hyd yn oed y rhywogaethau prinnaf. Diolch byth, y mae y ffasiwn am anifeiliaid wedi eu stwffio bellach wedi pasio, ond y mae peth o'u gwaith yn dal i werthu am brisiau uchel – gwerthwyd nifer o eitemau o waith Hutchings am dros £1,500 yn Llundain yn ddiweddar mewn hyn a ddisgrifiwyd fel '*gentleman's library sale'*. (Er mwyn gwerthu anifail prin erbyn hyn mae yn rhaid profi iddo gael ei ladd cyn 1947.)



*Ji-binc*

Wrth gychwyn o faes parcio Blaencywarch yr oedd yr adar yn canu o'n cwmpas ac fe ddaeth **ji-binc** reit at y ceir ond gyda'r dail yn prysur flaguro ar y coed yr oedd yn anodd braidd cael golwg da ar lawer o'r lleill. Diolch byth bod Haf efo ni – yr oedd hi yn adnabod cân pob un ac yn ein pwyntio i'r cyfeiriad cywir o leiaf. Yr oedd y **telorion** wrth gwrs yn canu'n iach a dilynodd cân y telor **penddu** ni drwy'r p'nawn, er na chawsom olwg da ohono.

Yn cylchu uwch ein pennau ac yn gwibio ar hyd clogwyn serth Craig Cywarch yr oedd

bwncath a phâr o gudyllod coch. Yr oedd cigfrain hefyd yn nythu ar y clogwyni – ac yn achosi colledion i'r ffermwyr oedd yn magu ŵyn yn is i lawr y cwm.



Y llynedd yr oedd Rhys wedi adeiladu pont droed 7 metr o hyd ar draws nant Camddwr ac yr oedd yn awyddus i gael golwg arni. Dyna ni felly yn dringo y llechwedd tuag at olion yr hen waith plwm a chael golwg ar y Cwm yn ei holl ogoniant. Mae y bont yn ddefnyddiol iawn i gerddwyr sy'n dilyn y llwybr cyhoeddus poblogaidd i ben yr Aran Fawddwy (pwynt uchaf de Eryri). Gan fod y bont yn bur uchel ac mewn lle anodd i'w chyrraedd bu'n rhaid i Rhys drefnu i hofrennydd gludo'r darnau i fyny er mwyn ei hadeiladu.



*Gwybedog brith*

Yn annisgwyl, ar wifren ffôn y gwelsom **siglen lwyd** ac nid ar lannau'r nant fel y disgwylid. Yno hefyd y canai **llwydfron** fechan.

I lawr a ni wedyn a chael cinio yn sŵn yr afon ar lawr y Cwm cyn codi eilwaith tua'r Gesail. Ar ein ffordd cawsom un o uchafbwyntiau y daith sef golwg pur dda ar geiliog **gwybedog brith** yn datgan ei diriogaeth ar ben un o'r coed cyfagos.



*Dringwr bach*

Yn ôl a ni wedyn am y ceir – ond 'doedd y Cwm ddim wedi gorffen efo ni eto; yr oedd un trysor arall yn ein disgwyl. Tynnodd Meinir ein sylw at **ddringwr bach** oedd yn dringo un o'r coed o gwmpas y maes parcio a chawsom i gyd olwg da arno.

Gorffen'som ddiwrnod arbennig o bleserus gyda phaned a chacen flasus yng nghaffi canolfan arddio Dinas.

**Gareth Jones**

(lluniau Gareth a Huw Dafydd)

## Adar a chreaduriaid difyr Sambia




Chwilio am daith i ddathlu cyrraedd Oed yr Addewid oeddwn i ac, ar ôl ystyried nifer o ddewisiadau, hoelio sylw ar Affrica. Fy newis yn y diwedd oedd Sambia, sy'n cyffinio â Botswana a Simbabwe yn y de, a Tansanïa a Gweriniaeth 'Ddemocrataidd' y Congo yn y gogledd. Canolbwynt y gwyliau fyddai **Parc Cenedlaethol De Lwangwa** .

Brodor o bentref ar gyrion y Parc oedd y tywysydd. Nid gwyddonydd efo rhes o gymwysterau ar ôl ei enw ond un a ddaeth i adnabod adar ac anifeiliaid ei filltir sgwâr fel cefn ei law, ac a ddysgodd drwy brofiad blynyddoedd sut i ddehongli eu hymddygiad a ble i ddod o hyd iddynt.

Yn yr awyr agored y caem ein brecwast bob bore, ar doriad gwawr cyn i hyd yn oed yr eryr pysgod lithro i'w gangen ar lan yr afon a nadreddai drwy'r ddôl wrth ein canolfan, a chyn i'r pysgotwr brith yntau ddechrau plymio am ei damaid boreol.

Fy amcan pennaf ar y daith hon oedd dod o hyd i **lewpard**, a chan nad oeddwn wedi gweld un o'r blaen, gwefr a hanner oedd canfod yr un cyntaf yn hela yn nhywyllwch y nos yn rhyfeddol o agos atom. Daeth at bwll bychan ac oedi am gryn amser i lepian y dŵr. Roeddwn i mor syfrdan â llwynog R. Williams Parry, ond diflannodd fy awen i a methais â llunio soned!

Daethom ar draws tri llewpard arall yn ystod yr wythnos – dau ohonynt yng ngolau dydd ac yn agos iawn. Nodi ffiniau ei diriogaeth yr oedd un o'r rhain. Aeth at un o'r llwyni, synhwyro a rhwbio'i wyneb yn y dail cyn troi a chodi ei gynffon i chwistrellu. Aeth at lwyn arall a gwneud yr un fath. Mae'n debyg y bydd llewpardiaid yn gwneud hyn nid yn unig i nodi eu tiriogaeth ond hefyd i roi gwybod i rai eraill beth yw rhyw a statws magu y sawl fu'n chwistrellu. (Bydd y benywod yn ogystal â'r gwrywod yn gwneud hyn.)



"Tewch, y tacla!" sibrydodd rhywun (yn ei iaith ei hun) wrth i ni eistedd un bore y tu ôl i gnud o **lewod** yn llechu ymysg llwyni wrth baratoi i ymosod ar fyfflo. Pump llewes ac un gwryw. Pob un ar ei draed yn barod, a llewes yn arwain. Aros, stelcian, symud

mymryn ymlaen. Canolbwyntio. Aros eto, stelcian, ac yn y diwedd, mynd amdani. Ninnau'n dilyn yr helfa'n agos iawn, yn colli golwg ar y llewod weithiau, ac yna'n cael cip eto arnynt yn ymlid y **byfflo**'n ddidrugaredd.

Ysywaeth, er y cynllunio trylwyr a'r cydweithio perffaith, UN i'r byfflo a DIM i'r llewod fu hi y tro hwnnw.

Drannoeth, daethom wyneb yn wyneb â'r llewod unwaith eto - yn gorwedd y tro hwn yn yr haul crasboeth, a thri o'r cenawon delaf a welsoch erioed yn swp cysglyd o dan eu gofal. Dau wryw yn gorweddian gyda nhw. Cododd un o'r rhain ei ben ac agor ei safn led y pen, gan ddatgelu'i ddannedd arswydus. Cyn bo hir, cododd ar ei draed ac ymlwybro heibio i ni o fewn llathen neu ddwy i'n cerbyd - ei gorff lluniaidd yn dalp o wrywdod.

Gallem ddehongli llawer wrth wylio'r heidiau cymdeithasol o impalaod (o deulu'r antelop). Os oedden nhw'n synhwyro bod yna anifail rheibus yn agosáu, byddai'r gwryw goruchaf yn rhoi galwad argyfwng. Wedyn, byddai pob un yn closio at ei gilydd ac yn syllu i gyfeiriad y bygythiad. Roedd yr ymddygiad hwn o fantais i ninnau; byddai'n arwydd i ni gadw ein llygaid ar agor am lew neu lewpard. Yn wir, daethom o hyd i sgerbwd un **impala** o dan goeden ar ôl i lewpard, yn ôl pob tebyg, lamu oddi ar un o'r canghennau a'i larpio yn y fan a'r lle.

Deniadol iawn oedd y jiraffod Thornicroft hefyd, er fod eu maint a'u siâp swrrealaidd yn arwain fy nychymyg i fyd y deinosoriaid! Mae patrwm cywrain y gôt yn unigryw i bob **jiraff**, a gall yr ysgyfaint ddal 12 galwyn o aer. Her fawr y galon yw gyrru gwaed i fyny'r gwddw 6-troedfedd, a dyna pam ei bod hi mor fawr ac yn gallu pwyso hyd at 25 pwys.




Yn gwmni i'r jiraffod, yn amlach na pheidio, byddai criw da o **sebras** Crawshay – is-rywogaeth i sebras cyffredin y gwastadeddau. Fel y jiraffod Thornicroft, maen nhw'n unigryw i'r rhan hon o Sambia.

Ond o'r holl anifeiliaid, yr un a'm cyfareddai i fwyaf oedd yr **eliffant**. Y clustiau mawr fel hwyliau'n clepian, y

trwnc od, y coesau plwm, y gynffon bwt a'r llygaid bychain trist. Creaduriaid cymdeithasol a defodol iawn. Cofiaf wylio teulu ohonynt yn un o barciau cenedlaethol Namibia, rai blynyddoedd yn ôl, wrth i'r teulu nesu at lyn ar derfyn diwrnod llethol o boeth, a'r tad yn ceryddu un o'r meibion am yfed y dŵr cyn iddo ef wneud hynny'n gyntaf; roedd hynny'n groes i'r ddefod. Ar ôl y dwrdio, y naill yn plethu ei drwnc am drwnc y llall i gadarnhau'r cymod.

Roedd gan amryw o'r anifeiliaid rai bach, a'r rheiny'n toddi calon pawb: cywion sebras, cywion jiraffod, cenawon llewod... Ond 'allai yr un ragori ar giwtrwydd yr eliffantod 3-6 mis oed oedd yn eu helfen yn rholio yn y mwd a'r llwch.



*Rholydd bron lelog*

Roedd hi'n adeg dda o'r flwyddyn i weld adar hefyd, gan fod y tymor glawog wedi dod i ben a phopeth yn wyrdd ac ir. Roedd y **rholydd bron-lelog** (*lilac-breasted roller*) yn ffefryn mawr. 'Aderyn yr enfys' yw'r enw lleol arno am fod ei blu yn cynnwys holl liwiau'r enfys, ac maen nhw'n dweud y tynnir mwy o luniau ohono nag unrhyw aderyn arall yn y byd. Hawdd deall hynny pan fydd o ar gangen o fewn hyd braich i chi neu'n dangos glas trawiadol ei adenydd wrth hedfan oddi wrthych.

Aderyn eiconaidd arall yw'r **copog** (*African hoopoe*). Cododd un oddi ar y ddaear ychydig lathenni o flaen ein cerbyd, ac aros am gryn amser ar un o'r coed. Roedd oren-binc y corff, streipiau llydan du a gwyn yr adenydd, y pig hirfain a'r grib 'ylwch-fi' yn cipio sylw'n syth.

Mae yna dair rhywogaeth wahanol o'r aderyn, mae'n debyg – copog Ewrasia, copog Madagasgar a chopog Affrica. Yn ystod y cyfnod mudo, bydd copog Ewrasia i'w weld yn weddol gyson ar Enlli, ac fe nythodd pâr yng nghanolbarth Cymru, rai blynyddoedd yn ôl.

O ran adar mawr ecsotig, y **garan coronog llwyd** (*grey crowned crane*) a wnaeth yr argraff fwyaf. Mae hwn dros lathen o dal, dros dair troedfedd a hanner o hyd, a'r adenydd yn chwe troedfedd a rhagor ar led. Llwyd hyfryd y corff yn cyferbynnu â'r adenydd du a gwyn, a



*Garan coronog llwyd*

chrib ysblennydd o blu aur ar y corun. Y pen yn ddu, y bochau'n wyn, a phwrs fflamgoch o dan y gwddw. Roedd gweld pâr o'r garanod gosgeiddig hyn yn un o uchafbwyntiau mawr y daith.

Roedd gan y nos ei hadar ei hun i'n difyrru. Un noson serog, glir wrth yrru drwy'r Parc (sydd, gyda llaw, yn ymestyn dros 5,500 o filltiroedd sgwâr), dyma'r gyrrwr cellweirus yn aros yn stond ac yn diffodd yr injan heb ddweud dim. Roedd hynny, fel arfer, yn arwydd bod yna rywbeth diddorol o gwmpas. Ni allai yr un ohonom weld unrhyw beth o bwys hyd nes i ni graffu ar wyneb y lôn arw ac, o'r diwedd, weld **troellwr cynffon-sgwâr** (*square-tailed nightjar*) yn swatio'n hollol lonydd, deirllath neu bedair o flaen y cerbyd. Roedd ei guddliw'n berffaith!

Pan daniwyd yr injan a symud ymlaen, cododd y troellwr ac wrth iddo igam-ogamu oddi wrthym, roedd y 'clytiau gwynion' ar ei adenydd yn amlwg – fel ar adenydd ei 'gefnder', y troellwr mawr, a welais droeon yng Ngwaith Powdwr Penrhyndeudraeth!



*Boda ystwyth*

Tipyn llai pleserus, er yn ddiddorol ar ryw ystyr, oedd gwylio **boda ystwyth** (*African harrier-hawk*) yn hedfan o goeden i goeden yn rheibio nythod y rholyddion bron-lelog prydferth. Mewn llecyn arall, roedd yna **eryr milwrol** (*martial eagle*) yn darnio'i brae ar gangen drwchus. Gwelsom hefyd **eryrod cwta** (*Bateleur eagle*), **eryrod rheibus** (*tawny eagle*), **gwyddwalch Affrica** (*African goshawk*), **gwalch bach Affrica** (*African little sparrowhawk*) yn ogystal ag adar ysglyfaethus llai eu maint fel y **cigydd cefngoch** (*red-backed shrike*). Ac ar ein bore olaf, roedd yna oddeutu 30 o **fwlturiaid** yn cylchu'n hirymarhous ar y gorwel, gan ostwng i'r ddaear fesul un ac un i elwa, bid siŵr, ar laddedigaeth arall.

Yr amcangyfrif swyddogol oedd i ni weld tua cant o rywogaethau gwahanol o adar – chwarter yn unig o'r 400 o rywogaethau sydd wedi'u cofnodi yn y Parc!

**Ieuan Bryn**
(lluniau Alun Williams ac eraill)

## Taith Llanberis, Ebrill 28fed

Tybed ydach chi wedi sylwi ar fan fawr felen wedi ei pharcio mewn llecyn anghysbell ac Adar Eryri wedi ei sgrifennu ar ei hochor ac wedi meddwl tybed beth yw ei hanes?



Ers pan yn blentyn, bu gan **Gareth Jones** o Lanrug ddiddordeb angerddol mewn adar. Byddai yn treulio ei ddyddiau allan yn yr awyr agored, yn crwydro ac yn dysgu am adar a byd natur. Trwy hynny, datblygodd i fod yn naturiaethwr o fri ac fe ymunodd â nifer o gymdeithasau astudio adar gan ddatblygu ei arbenigedd ymhellach. Bu hefyd yn gwylio adar mewn gwledydd tramor megis Tiwnisia, Moroco, Malorca a Bwlgaria.

Ers rhai blynyddoedd bellach, sefydlodd ei gwmni ei hun – **Adar Eryri**/*Birds of Snowdonia* ac y mae yn cynnig mynd â phobol o gwmpas Gogledd Cymru i weld y cyfoeth o adar sydd gennym yma. Gyda thros 30 mlynedd o brofiad mae Gareth yn adnabod yr ardal yn wych ac yn gallu mynd â'i gwsmeriaid i weld hyd yn oed yr adar prinnaf. Gwyliwch am y fan fawr felyn wedi ei pharcio ar ochr y lôn yng nghanol 'unlle!

Yr ydym wedi bod yn ffodus iawn ers rhai blynyddoedd bod Gareth wedi bod yn barod i roi un o'i ddiwrnodau prysur yn y gwanwyn i fynd a ni, aelodau Cymdeithas Ted, ar daith ac fe fu y teithiau hyn ymysg rhai mwyaf pleserus a llwyddiannus y Gymdeithas.

Yr oedd edrych ymlaen garw felly at daith eleni yn ardal Llanberis gyda phawb yn gobeithio na fyddai'r gwynt, y glaw a'r tywydd oer yr ydym wedi ei gael y gwanwyn hwn yn difetha'r diwrnod, ond na, yr oedd pethau o'n plaid a chawsom ddiwrnod braf.



*Gwybedog brith*

Cychwyn'som y daith wrth waelod hen chwarel Glyn Rhonwy, Llanberis. Yr oedd yn rhyfeddol sut yr oedd byd natur wedi ail-afael yn hen domennydd y chwareli a chymaint o goed sydd yna erbyn hyn. Yn syth ar ôl gadael y ceir, cawsom un o'r arwyddion mawr bod y gwanwyn o'r diwedd wedi'n cyrraedd, sef golwg sydyn ar y **gwybedog brith**. Yn ôl Gareth, yr oedd yr ymwelydd hwn o'r Affrig newydd gyrraedd rhyw wythnos yn ôl ac yr oeddem i gyd yn hynod falch o'i weld. Yn ystod y

dydd, aethom ymlaen i weld nifer go dda o'r aderyn hwn a chafwyd cyfleon da i dynnu ei lun. Ymwelydd diweddar arall oedd yn aros amdanom wrth ymyl y ceir oedd **telor yr helyg** ac fe ddilynodd cân ddigalon yr aderyn hwn ni drwy'r dydd. Yr oedd yn prysur neidio o gangen i gangen ar y coed ac yn gyndyn iawn i sefyll yn llonydd i ni dynnu ei lun, ond fe gafwyd lluniau yn y diwedd.

Clywodd Gareth a Haf y **tingoch** yn canu ond er gwaethaf y craffu manwl a'r binocs drud 'doedd dim posib ei weld, yna fel mellten, wrth i ni gychwyn cerdded i ffwrdd dyma fo'n gwibio ar draws y lôn a chawsom olwg ar y fflach goch yna sy'n rhoi iddo ei enw. Nid pawb sy'n adnabod cân y tingoch, ond yn sicr, mae pawb yn adnabod can **y gog** a dyna a glywsom nesaf. Yr oedd yn canu ymhell oddi wrthym ar lethrau isaf Moel Eilio ac felly welsom ni mohono, ond yr oedd pawb yn hynod falch o'i glywed.

Wrth fynd drwy y parc busnes arfaethedig a adeiladwyd ar gôst o £1M gan Gyngor Gwynedd yng Nglyn Rhonwy, cawsom hanes y storfa fomiau enfawr a fu yno yn ystod y rhyfel a'r trafferthion a gafwyd wedyn wrth glirio'r safle. (Mae linc i'r hanes ar wefan Cymdeithas Ted – ewch i'r adran a chwiliwch am Glyn Rhonwy. Mae yno linc i'r hanes a thaith fideo y tu mewn i'r hen storfa.)

Wrth adael y stâd ddiwydiannol yr oeddem yn mynd i dir mwy agored gyda llawer o goed eithin. Rhoddodd Gareth y gorchymyn i bawb fod yn dawel ac o hirbell fe glywsom gân y **bras melyn**.



*Bras melyn*

Gyda hwn yn gofyn am "*a little bit of bread and no cheese*" yr oedd yn ein hatgoffa ei bod yn amser cinio ac felly eisteddom i lawr ar ochor y ffordd i fwyta (ac yr oedd gan y rhan fwyaf ohonom dipyn mwy o wledd na 'bara a chaws'). Tra'r oeddem yn bwyta, hedfanodd **hebog tramor** uwch ein pennau tuag at ei nyth yn uwch i fyny yn un o hen dyllau'r chwarel. Ond y wledd fwyaf oedd i'r bras melyn ddŵad yn llawer iawn agosach atom ac fe gafodd Huw lun gwych ohono.

Ar y ffordd i lawr, clywsom gân eithriadol soniarus y **telor penddu** ac fe'i gwelwyd am gip sydyn yn un o'r coed. Ond wedyn daeth golwg ryfedd ar wynebau Gareth a Haf- yr oedd cân arall debyg ofnadwy - tebyg ond mymryn yn wahanol. Beth oedd yno ond **telor yr ardd**.

Yn y coed bedw wrth ochr y lôn fe ganai **llinosiaid pengoch** ac yr oedd nifer o'r **siff-siaff** yn neidio yn frysiog o un gangen i'r llall. Wrth gwrs, fe welsom lawer o



adar mwy cyfarwydd hefyd ar ein ffordd, megis **ji-binc**, **robin**, **dryw**, **mwyalchen**, a **thitŵod**.

Ar waelod Glyn Rhonwy, aethom ymlaen drwy Goed Doctor. Yma yr oedd Gareth, gyda chymorth Rhys Jones (Cyngor Gwynedd) wedi gosod dros 50 o flychau nythu ar gyfer y gwybedog brith (ynghyd â blychau ar gyfer tylluanod ac ystlumod) ac yr oedd y gwybedog wedi cymryd atynt yn arw. Credai Gareth bod rhyw 53 pâr ohonynt yn nythu yn y goedlan fechan hon erbyn hyn.

Yr oedd pawb ar ben eu digon wrth gyrraedd yn ôl at y ceir, ond fel gyda phwdin da, ’does yna byth ddigon i’w gael. Yr oedd yn anodd tynnu’r diwrnod i ben ac felly aethom ychydig filltiroedd ar draws y dyffryn ac i fyny y tu draw i bentref Dinorwig. Yr oeddem wedi gobeithio gweld **mwyalchen y mynydd** yno – yr oedd Gareth wedi ei gweld ddyddiau ynghynt, ond ’doedd hi ddim am ddangos ei hun i ni; mae’n siwr bod prysurdeb y maes parcio a’r holl ddringwyr ar y creigiau wedi ei dychryn. Ond fu hon ddim yn siwrne wâg, daeth **tinwen y garn** i arddangos yn agos iawn at y lôn a chafodd pawb olwg da arni.

’Doedd dim amdani wedyn ond troi am adref - ond cyn ffarwelio yr oedd yn rhaid gweld sut gacen oedd yna i’w chael yn y caffi yn hen ysgoldy Dinorwig. Diwrnod gwerth chweil. Diolch unwaith eto Gareth.

**Gareth Jones**
(lluniau Gareth a Huw)

## Taith Nebo, Mai 26ain

Croeso i’r topiau ’ma! Ddim cweit i gopa Bryn Nebo’r Beibl efallai, ond gall fod yn nefoedd yma ar adegau o ran heddwch a golygfeydd bendigedig. Cyfarfod wrth yr ysgol, sy’n dal ar agor ac yn arwydd tywydd i mi, oherwydd, o’m cartref, pan glywa’i sŵn y plant yn glir iawn ar eu hamser chwarae, bydd y gwynt o’r dwyrain a’r tywydd yn braf.

Mynydd agored a thir comin oedd yma tan tua diwedd y 18fed ganrif ond pan agorwyd chwareli yn Nyffryn Nantlle gerllaw fe godwyd tai unnos drwy’r ardal,

pawb â'i 'dair acer a buwch' fel 'tae, a buan y sefydlwyd y clytwaith o dyddynnod a welwn ni heddiw. Capel Nebo oedd canolbwynt y gymuned ac a roddodd ei enw i'r pentra bach a gododd o'i gwmpas. Mae'r hen gapel wedi mynd ac fe gawsom olwg ar y plac llechan sy'n olrhain ei hanes, sy' hefyd yn adrodd hanes twf a dirywiad y gymdogaeth.

*Adeiladwyd 1826*
*Ail adeiladwyd 1861*
*Trydydd adeiladwyd 1874*
*Helaethwyd 1878*
*Dymchwelwyd 1981*



I ffwrdd a ni i lawr y ffordd fach am Pont Lloc, ac o fewn ryw ugain llath sylwi bod yr hen fyharan Jacob mawr, efo'i got fraith a'i bedwar corn, ar wastad ei gefn yn y cae gerllaw ac yn methu codi. Wel, dyma ddringo dros y wal a'i godi ar ei draed. Ond druan bach, am ei fod wedi bod yno am sbel ac yn diodda o'r bendro, drosodd a fo ar ei gefn eto. Rhaid oedd ei godi a phwyso yn ei erbyn i'w sadio am ryw funud neu ddau, hyd nes i'w fyd beidio  â mynd rownd a rownd, ac iddo fedru sefyll yn iawn. Cyn bo hir roedd o'r pori'n braf.

Dim ond adar y gerddi a'r gwrychoedd a welsom am sbel: **titw mawr, robin, ji-binc, deryn du, nico, siani lwyd** hyd nes cyrraedd y rhostir tu draw i'r afon. Cynefin dipyn mwy agored yma efo grug, plu'r gwaenydd a'r blodyn bach pinc, melog y cŵn, yn y borfa a phoeri'r gôg ar goesau rhai o'r gweiriau. Roedd **llinos** ar weiren, **corhedydd y waun** yn codi a pharashiwtio, **siff-siaff** yn canu ei ddeunod a **sgrech y coed** yn hedfan am y blanhigfa o goed duon ryw chwarter milltir i ffwrdd. Cyrraedd ryw goediach – drain duon a chyll yn bennaf ac ambell griafolen. Yno roedd **bronfraith** yn canu, **coch y berllan, dryw**, robin, siani lwyd, **telor helyg**, siff-siaff arall a **wennol** yn hela pryfed uwchben y llwyni.

Cyrraedd y ffordd fach sy'n arwain o Lanllyfni at Gwm Silyn ac sy'n dringo'n raddol tua'r mynydd rhwng rhai o'r cloddiau cerrig sy' mor nodweddiadol o'r ardal. Roeddem yn teimlo brath y gwynt wrth i ni ddringo ac wrth i'r tir agor allan i bob cyfeiriad. Cyn bo hir roeddem wedi cyrraedd adfail hen dyddyn bach Maen y Gaseg, sydd bron iawn yn pwyso yn erbyn clamp o graig fawr gron (hwn yw y 'maen' yn enw'r lle) sy'n ei gysgodi rhag gwyntoedd y gorllewin. Oes, mae angen cysgod mewn lle mor agored; golygfeydd gwych dros Fae Caernarfon (Iwerddon i'w weld ar ddiwrnod clir) a Môn, sy'n golygu ei bod yn braf iawn pan mae hi'n braf yma ac yn uffernol pan mae'n uffernol.

Dyma glywed a gweld y **gôg** ac, wedi inni droi i lawr y ffordd drol i'r dde, uwchlaw Maen y Gaseg, a ffeindio cysgod tu ôl i glawdd cerrig i gael cinio, fe ddaeth yn ei hôl gan ddenu un arall ati hefyd. Roedd angen y cysgod arnom erbyn

hyn am fod awel go gref dros y tir agored ac roedd hi'n eitha' oer. Bu'r cogau, dau geiliog, yn canu eu deunodau am sbel wrth inni f'yta'n brechdanau, gan adael i'n ffotograffwyr gael hwyl dda ar dynnu lluniau.



*Y gog*

Yn y cyfamser roedd John Parry ac un neu ddau arall, oedd y cyntaf i gyrraedd wedi cael cip sydyn ar **garlwm** yn picio i mewn ag allan o wal gerrig gerllaw. Wnaeth yr heliwr bach ddim aros. Roedd o wedi sgrialu cyn i neb arall ei weld o – wedi dychryn mae'n siwr wrth weld y fath griw yn cyrraedd.

Ymlaen â ni drwy'r gors frwynog heibio tyddyn bychan, bellach yn dŷ haf, efo enw addas iawn: Ty'n Gors, gan sylwi ar **gorhedydd** a **chlochdar y cerrig** yn 'tsh-tsh, tsh-tsh' arnom, fel 'tae'n taro dwy garreg yn erbyn ei gilydd. Roedd mwy o amrywiaeth yn y tir wrth inni fynd yn ein blaenau; coed a brwgaitsh, cloddiau, corsdir gwlyb a nant. Roedd penbyliaid mewn pwll wrth ochr y ffordd, dryw, **titw mawr** a thelor helyg yn canu, ac yna ryw 'drrrrrrr' o'r brwgaitsh oddi tanom, Tybed ai **llwydfron** (neu barfog) oedd yno? Wrth lwc, daeth allan o'i guddfan yn heriol gan roi inni ei gân diriogaethol gryfaf i hel ymaith y tresbaswr! Cawsom olwg dda iawn arno.



*Llwydfron*

Cyn bo hir roeddem ar ymyl Cors y Llyn – tir comin corsiog go helaeth a arferai gael ei bori gan wartheg tyddynwyr yr ardal ar un adeg, ond sy'n brysur fynd yn grawcwellt a choed helyg erbyn hyn. Mae llwybr cyfleus rhwng y gors a'r tir mynydd – mynydd Garnedd Goch sy'n rhan o Grib Nantlle yw hwn, felly dyma ei ddilyn i gyfeiriad Cwm Dulyn.

Roedd pobl yn arfer torri mawn yn y gors ers talwm ac mae stori ddifyr am yr hyn ddigwyddodd pan sylweddolodd rhai bod rhywun yn dwyn ambell fawnen o'r cytiau

mawn ger y tyddynnod. Dyma un o'r tyddynwyr, ddigwyddai fod yn gweithio yn chwarel Dorothea, Talsarn, yn dŵad a chapsen *(detonator)* adra efo fo ac yn ei rhoi mewn mawnen oedd ar ben y gweddill yn y cwt, gan rybuddio'r teulu i beidio dŵad a honno i'r tŷ i'w rhoi ar y tân. Rhyw 2-3 wythnos yn ddiweddarach fe glywyd clec aruthrol o un o'r tyddynnod, a'r trigolion yn rhedeg allan o'r tŷ mewn cwmwl o lwch a mŵg. Roedd pawb yn gwybod wedyn pwy oedd y lleidr mawn!

Fe welsom ac fe glywsom ryw ddau neu dri llwydfron a chlochdar cerrig yn y tri chwarter milltir nesa hyd nes cyrraedd y giat i Gwm Dulyn. Uwchben roedd **cigfran** yn cael ei herlid yn ffyrnig gan ddwy **frân dyddyn** a oedd yn amlwg yn nythu gerllaw ond, heblaw am ambell gorhedydd, eitha' distaw oedd hi o ran adar. Roedd Llyn Dulyn yn lyn naturiol hyd 1886, pan y'i helaethwyd i wneud cronfa ddŵr yfed i drigolion Dyffryn Nantlle a'r gwastadeddau islaw. Roedd rhyw ddyrnaid o **chwiaid gwylltion** yma heddiw a dwy **ŵydd Canada**.

Ym mhen pella'r cwm mae clogwyni mawrion Craig y Gigfran a'r Dresal yn codi bron yn syth o'r llyn; y Dresal am fod silffoedd grugog yn amlwg iawn arni. Dyma noddfa i lwynogod pan fydd helgwn Pen yr Yrfa (rhan o helgwn Eryri) ar eu holau.



*Llinos bengoch*

Pan fydd yr helgwn ar eu trywydd bydd llwynogod Cwm Pennant, sydd dros y grib, yn dŵad yma ac yn dringo o un silff i'r llall i ddiogelwch, am na fedr yr helgwn, sy'n rhy fawr a thrwsgl i'w dilyn, eu cyrraedd. Bu i ambell helgi go frwd wneud llanast ohoni wrth ddringo yn rhy bell, a disgyn oddi ar y clogwyn i'w dranc.

Dyma lwybro yn ôl rownd Cors y Llyn i gyfeiriad Nebo gan sylwi ar bâr o **linosiaid pengoch** ar goeden griafol ar gwr y gors. Cyfle wedyn i aros ysbaid yng ngardd arweinydd y daith am baned a 'sgedan, a chyfarfod Nel yr ast goch a roddodd groeso i bawb. Yn ein holau wedyn at y ceir, oedd wedi parcio yn iard yr ysgol - heb ganiatâd ffurfiol. Ond roedd popeth yn iawn a 'doedd y giât ddim wedi ei chloi! Diwrnod da a diolch i bawb am ddod.



**Twm Elias**

(lluniau Gareth a Huw)

## Cadw trefn ar y plantos



*Tylluan frech*

*"Shhd... wnewch chi!"* ydi cerydd rhieni dros y cenedlaethau; rhyw frwydr barhaus yng ngŵydd pobl eraill i gadw rhyw fath o drefn ar bethau.

Bu eleni yn flwyddyn ddigon difyr acw; i ddechrau, gweld sgwarnog yn yr ardd am y tro cyntaf ac wedyn pâr yn y weirglodd - ond nid dyna uchafbwynt ein blwyddyn i ni.

Wrth i rywun droedio ei libart, sylwi yr ydym yn aml ar rywbeth sydd yn wahanol ym mhatrwm pethau cyfarwydd. Rhyw siâp od mewn coeden neu lwyn y mae rhywun wedi ei gweld ddegau o weithiau o'r blaen, a dyna a ddigwyddodd acw yng nghanol mis Mai.

I ddechrau, fe welais dylluan frech mewn llwyn eithin a hynny yng ngolau dydd – anarferol gweld tylluan yng ngolau dydd. Amheuais bod nyth yn y cyffiniau a bum yn chwilio ym mhobman, ond heb fawr o lwc.

Ond, ddechrau Mehefin yr oedd cryn gynnwrf yn y coed - sgrechian wylofus y cywion *"Lle wyt ti mam?"* Am y ddau ddiwrnod cyntaf yr oedd y ddau gyw yn sŵn i gyd ac yn rhy ddi-hyder i hedfan i ffwrdd wrth imi fynd heibio. Gwibiodd y fam heibio, mae'n siwr efo'r bwriad o geisio â thynnu fy sylw a'm denu oddi yno.

'Doedd gan y cywion fawr o guddliw – yr oeddent fel pelen o wlân golau yn eistedd yn lletchwith ar gangen. Pethau digon blêr oeddent ac iddynt sgrech digon dychrynllyd.



Ond o fewn ychydig ddyddiau yr oedd mwy o drefn ar y plantos ac yr oeddent bellach yn eistedd yn dawel dan gyfarwyddyd eu rhiant, ac oherwydd hyn, yr oedd yn anodd eu canfod ymysg y canghennau. Yr oedd tawelwch llethol ac amheuais eu bod wedi mynd i rhywle arall.

Ond diolch byth am NIMBY! ’Doedd rhyw aderyn du ddim eisiau’r dylluan na’i hepil yn ei libart ac yr oedd yn ymosod arnynt. Yr oedd yn hawdd gweld y ddau aderyn du yn erlid, a thrwy hynny gweld y dylluan er gwaethaf ei chuddliw. Wrth i’r dylluan gythruddo, yr oedd y cywion yn gwichian yn rhywle, a thrwy hynny cefais hyd iddynt hwythau. A bu hyn yn batrwm dyddiol - fel pe byddai’r aderyn du eisiau fy helpu i’w canfod ac yn ail-adrodd hyn pan oeddwn yn ’stelcian o gwmpas efo’m camera yn obeithiol.

Dros nifer o ddiwrnodau, datblygodd y cywion i fod yn fwy hyderus eu ehediad, yn dawelach ac yn tyfu o ddydd i ddydd. Gan yr arhosai y fam heb fod ymhell o’r cywion er mwyn eu gwarchod manteisiais ar sawl cyfle i gael lluniau da ohoni hi a’r cywion. Braf iawn oedd cael y cyfle anghyffredin hwn o gael lluniau o’r tylluanod yng ngolau dydd.

**Dafydd Paul**
Golan

## Adarydda yn yr Anialwch – Cystadleuaeth *'Champions of the Flyway 2018'*

Cyn i mi ddechrau sôn am adar lliwgar ac anhygoel o diroedd bell, efallai eich bod yn gofyn i chi eich hunain, beth yn union yw *'Champions of the Flyway'*? Wel, 'Flyway' yw ardal benodol y mae miliynau a miliynau o adar yn hedfan drwyddi pob blwyddyn, yn dilyn llwybrau hanesyddol rhwng ardaloedd y mae adar yn nythu i wledydd lle maen nhw'n gaeafu. Yn anffodus, o fewn yr ardaloedd hyn mae oddeutu 25 miliwn o adar yn cael eu lladd pob blwyddyn! Mae llawer o'r adar hyn, gan gynnwys yr wennol, telor penddu a'r gog yn mudo nôl ac ymlaen o Gymru i'r Affrig bob blwyddyn, ac os na wnawn ni wneud rhywbeth am y lladdfa anghyfreithlon hwn, efallai na welwn ni nhw yma eto.
Yn anffodus mae rhai adar megis y turtur wedi diflannu yn gyfan gwbl o'n tiroedd yma yng Nghymru fach.



*Turtur – wedi diflannu o'n cefn gwlad yma yn Nghymru ac yn debygol o fod yn aderyn a gaiff ei golli yn llwyr ar draws y byd yn ein hoes ni.*

Mae digwyddiad blynyddol *'Champions of the Flyway'*, a gynhaliwyd eleni ar y 26ain o Fawrth, yn ras gwylio adar 24 awr yn ne Israel. Mae nifer o dimau rhyngwladol yn cystadlu yn erbyn eu gilydd am deitl aruchel *'Champions of the Flyway'*. Nod y 'ras adar' hon yw gweld cymaint o rywogaethau o wahanol adar mewn diwrnod cyfan.

Eleni aeth tîm o Gymru, 'Barcutiaid Cymreig Leica', i Israel yn gobeithio dod â goleuni i'r gyflafan yma a sut mae'n effeithio adar ar raddfa byd-eang. Y tîm cyntaf o Gymru oedd Alan, Marc a Robin o Sir Conwy, Arfon o Sir Geredigion a Rob Jones o Gastell-nedd. Gyda'n gilydd, ein nod oedd codi ymwybyddiaeth yma o'r sefyllfa erchyll sy'n wynebu ein hadar, a gwneud safiad yn erbyn cyflafan yr adar hyn fel cadwraethwyr ymroddgar. Gyda'r thema "*Does gan adar ddim ffiniau, pam ddylen ni?*" y gobaith oedd dangos fod pobol o wahanol genhedloedd, cefndiroedd a chredoau, yn gallu uno mewn un diddordeb ac yn enw cadwraeth.

Dim ond rhan fach o'r prosiect oedd y ras ei hun. Roedd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol diddiwedd a nifer o ddiwrnodau codi ymwybyddiaeth yn RSPB Conwy yn gweld y neges gadwraeth yn cael ei lledaenu ar draws Cymru a thu hwnt. Erbyn i ni adael ein glannau am Israel, codwyd dros **£10,000** gan y tîm ar gyfer achos cadwraeth *'BirdLife International Europe'*.

Cyrhaeddom Tel Aviv ychydig ddyddiau cyn diwrnod ras. Gan nad oedd yn ardal gyfarwydd i ni, bu'n rhaid i ni archwilio ardal Eilat a chynllunio'r diwrnod i lawr i'r funud olaf. Unwaith yr oeddem wedi glanio, roeddwn yn gallu gweld pam bod y digwyddiad hwn yn digwydd yn y gornel fach hon o'r byd - roedd yna adar ymhob man! Oherwydd y dirwedd anialwch garw, roedd yr adar yn weddol hawdd i'w darganfod. Roedd adar lleol yn dueddol o fod yn arbenigwyr yr

anialwch tra y byddai unrhyw adar sy'n mudo drwy'r ardal yn dod o hyd i ddŵr neu ardaloedd gwyrdd. Roedd y Kibbutz yn darparu cysgod a lloches ar gyfer adar blinedig ar ôl eu taith hir o'r Affrig. I fyny yn yr awyr, gwelwyd miloedd ar filoedd o adar ysglyfaethus yn cylchdroi ar y thermalau cynnes wrth iddyn nhw deithio i'r gogledd. Bwncathod, eryrod a hebogiaid - tra roedd heidiau enfawr o giconiaid gwyn a du yn troelli uwchben tua'r gogledd.



*Eryr a bwncathod – heidiau o adar ysglyfaethus yn mudo*

Erbyn y seremoni agoriadol yng ngwarchodfa adar yr IBRC ychydig i'r gogledd o Eilat, roeddem wedi gyrru miloedd o filltiroedd i chwilio am leoedd i ymweld â hwy ar y diwrnod wrth gynllunio ein taith. Byddem yn dechrau yn y de yn Eilat am hanner nos gan chwilio'r corsydd yn y tywyllwch yn gwrando am adar dŵr fel y rhegen, telorion y gors a chrëyr y nos, cyn symud i'r Kibbutz i chwilio am dylluanod. Yna byddem yn gyrru'r pedair awr i'r gogledd yr ardal rasio i chwilio am adar yr anialwch cyn gyrru yn ôl i'r de i wylio adar mewn gwahanol gynefinoedd cyn cyrraedd yn ôl yn Eilat ymhen pedwar awr ar hugain.

Erbyn hanner nos, Mawrth 26$^{ain}$ roedd y cyffro'n uchel a daeth deugain o dimau o bedwar ban y byd at ei gilydd- hanner y rhain o Israel a Phalestina a'r gweddill o bob cwr o'r byd. Roeddem yn falch iawn i weld baner Cymru'n hedfan am y tro cyntaf uwchben pencadlys y ras. Ar y chwiban am hanner nos diflannodd y timau i'r tywyllwch.

Yng nghanol corsydd Israel, ein haderyn cyntaf oedd rhegen y dŵr, yn gwichian fel mochyn. Roedd siâp gŵydd yr Aifft yn amlwg yng ngolau'r lleuad wrth iddi gysgu ar bwll bach. O'n cwmpas roedd pob math o delorion yn canu wrth iddynt farcio eu tiriogaethau. Dechrau da i'r diwrnod mawr.

Yna'r daith hir i'r gogledd i ardal lle clywsom ddwy rywogaeth o dylluan ychydig o nosweithiau ynghynt. Wrth i ni fynd i mewn i'r Kibbutz yn nhywyllwch y nos, roedd yna ddistawrwydd perffaith - hynny yw, nes i dylluan gorniog ddechrau galw. Yna roedd galwad y dylluan scops yn amlwg, yn swnio fel larwm car yn y pellter. Bingo!

Erbyn i ni gyrraedd yr anialwch pell yr oedd y bore yn dechrau gwawrio. Er i ni fod yng nghanol yr anialwch, roedd y tymheredd yn isel a'r gwynt yn fain. Dechreuodd yr ehedydd copog ganu yn yr hanner olau, ei gân fel ffliwt yn canu

unawd ar lwyfan yr Eisteddfod. Yn fuan, roedd yn ddigon golau i weld siapau ymysg creigiau sych yr anialwch. Ar ôl sbel o edrych, gwelwyd siâp yn symud; ceiliog y waun McQueen's! Anhygoel o dderyn yn rhedeg o gwmpas yn y tywod. Mae'r gwryw yn edrych fel twrci mawr sydd, rhywsut neu'i gilydd, yn llwyddo i droi ei frest y tu chwith allan gan guddio ei ben yn ei blu gwyn. Roedd yn anodd tynnu ein hunain i ffwrdd o'r olygfa gartwnaidd hon ond roedd yna adar i'w gweld a ras i'w hennill. Daeth adar yr anialwch yn eithaf hawdd; rhedwr y moelydd, rhedwr y twyni, ehedydd llwyd, cigydd mygydog a'r sofliar.



*Gwybedog y gwenyn fach – adar amryliw ym mhobman*

Yr oedd yn amlwg yn fuan bod adar yn mudo gyda heidiau o gwybedog y gwenyn, gyda'i gôt amryliw fel enfys yn hedfan ar draws yr anialwch o goeden i goeden. Yn sydyn gwelwyd fflach o las yn hedfan ar draws y lôn, yna ar ben gwrych bach roedd aderyn cyfarwydd iawn i ni yng Nghymru – y cudyll bach! Yma yn Israel, aderyn prin iawn ond ar y pryd nid oeddem ni'n gwybod mai ni fysa'r unig dîm i weld yr aderyn yma ar y diwrnod.

Wrth i'r diwrnod gynhesu daeth cannoedd o adar ysglyfaethus allan o'r awyr yn edrych am le i orffwys ar ôl y daith dros y Môr Coch o'r Affrig. Bwncath yr anialwch, eryr brych, eryr ymerodrol a fwltur yr Aifft; golygfa anhygoel wrth i'r adar anferth hyn gylchdroi ar y thermalau cynnes ar y daith i'w hardaloedd nythu.

Roedd y golygfeydd yn wych, clogwyni anferthol, dyffrynnoedd dwfn a dim gwyrddni am gannoedd o filltiroedd. Enwau Beiblaidd ar arwyddion y lonydd, Jeriwsalem, Sinai a Hebron.

Fel bachgen, yn tyfu i fyny mewn cartref ble y cafodd natur le blaengar, roedd yna lawer o lyfrau adar ar y silffoedd. Roedd y rhan fwyaf o'r adar yn y llyfrau hyn i'w gweld yn lleol neu o leiaf ar gael ar wyliau teuluol. Fodd bynnag, roedd un aderyn yn sefyll allan. Aderyn bach coch llachar, gydag enw Beiblaidd; llinos Sinai. Dangosai y map oedd yn cyd-fynd â'r aderyn yn y llyfr hwnnw ddarn bach o'r Dwyrain Canol oedd yn cynnal poblogaeth fach o'r aderyn hwn. Roedd gweld un o'r adar hudol yma yn teimlo fel breuddwyd bell. Fodd bynnag, yma, yn ddwfn mewn dyfrlliw bach o dde Israel, roeddwn i'n



*Milltiroedd ar filltiroedd o anialwch*

gwylio grŵp bach o bump llinos Sinai gyda'u galwadau fel trympedi bach yn bwyta pryfaid ymysg y cerrig - daeth breuddwyd yn wir!

Roedd adar gwahanol yn parhau i ddangos ac erbyn canol dydd roeddem wedi cyrraedd cant o wahanol rywogaethau; carreg filltir bwysig. Wrth i ni gyrraedd y de, newidiodd y dirwedd anialwch i wyrddni gydag ardaloedd lle'r oedd yna ddŵr. Roedd yn awr yn bosib ychwanegu hwyaid, adar y glennydd a gwahanol fathau o grehyrod at y rhestr. Yn bwydo'n braf ar un llyn yr oedd cannoedd o fflamingos mwyaf yn edrych fel môr o binc. Wrth edrych drwyddynt gwelwyd fod un ohonynt hanner maint y fflamingos eraill; Waw! Fflamingo lleiaf! Aderyn eithriadol o brin o Affrica. Roedd hwn yn fonws anferthol ac yn dangos y gall unrhyw aderyn droi i fyny yn Israel.



*Llinos Sinai – Uchafbwynt y daith i mi*

Wrth i'r haul fachlud a'r golau ddiflannu, dechreuodd y tîm flino ac arafu. Penderfynwyd eistedd am gyfnod yn edrych am adar yn hedfan i'r corsydd i glwydo. Am syniad llwyddiannus!

Roedd yr awyrgylch yn hudol wrth i haid o grymanbig hedfan dros ein pennau, miloedd ar filoedd o wenoliaid dros y dŵr yn bwydo cyn mynd i'w gwlâu. Wrth i'r tamaid olaf o oleuni ddiflannu, dechreuodd troellwr yr Aifft ganu uwchben ein pennau gyda'i gysgod yn amlwg yng ngolau'r lleuad. Am ffordd i orffen!



*Fflamingo leiaf gyda fflamingo fwyaf.*
*Mae hwn yn aderyn prin iawn o'r Affrig.*



*Troellwr yr Aifft – aderyn arbennig yn yr anialwch.*

*Ein haderyn olaf yn ystod y diwrnod.*

Roedd y rheolau yn nodi'n glir bod angen dychwelyd i'r warchodfa natur yn Eilat cyn hanner nôs. Gyda deg munud i fynd, a bron iawn ar ein gliniau ar ôl pedair awr ar hugain o adarydda, cwympodd y pump ohonom dros y linell derfyn. Ar ôl cael ein herio gan y beirniaid am yr adar, yn enwedig y rhai prin, a gorfod dangos lluniau a disgrifio'n fanwl yr hyn a welwyd, gorffennodd y tîm o Gymru gyda **159 o wahanol rywogaethau**; y nifer fwyaf o adar a welwyd mewn diwrnod yn hemisffer y Gogledd erioed gan adarwyr o Gymru. Daeth y tim yn 9fed yn y gystadleuaeth a'r 5ed yn y gystadleuaeth ryngwladol - ddim yn ddrwg am y tro cyntaf i gystadlu. Hefyd, roedd yn braf cael ennill y wobr '*Knights of the Flyway'* am fod y tîm mwyaf cyfeillgar ac am fod yn greadigol wrth godi arian ar gyfer yr achos elusen gadwraethol '*BirdLife International'*.

Wrth i ni gasglu ein tlws ar y llwyfan, edrychais i fyny a gwelais olygfa anhygoel - barcud yn hedfan drosodd, yn mudo i'r gogledd. Arwydd efallai? Mae adar yn diflannu ac mae angen i ni wneud rhywbeth am y peth. Mae llwyddiant y barcud yng Nghymru yn dangos beth y gellir ei wneud os yw pawb yn gweithio gyda'i gilydd. Mae angen inni weithredu'n gyflym neu byddwn yn colli'r natur o'n cwmpas.

Rwy'n gobeithio y bydd timau o Gymru bellach yn cystadlu'n rheolaidd yn y digwyddiad hwn, er mwyn codi ymwybyddiaeth nad oes ffiniau i gadwraeth. Y mae adar yn rhodd arbennig a roddwyd i ni, ac y mae yn rhaid i ni ofalu am y rhodd arbennig hwnnw cyn ei bod yn rhy hwyr.

**Marc Berw Hughes**

## EWD ac ESV



’Roedd y 7fed o Fai 2017 yn ddiwrnod go arbennig. Dyma’r diwrnod y cofnodais nid un ond dwy wylan y penwaig gwahanol a hynny o’m gardd yng Nghlydach.

Yr oedd EWD wedi ymddangos yn yr ardd yn y gorffennol; gwylan yw hon a gafodd ei modrwyo yng Nghaerloyw yn 2009. Ar ei choes chwith ceir modrwy lliw glas gyda’r llythrennau EWD yn amlwg arni mewn oren. Ers 2010 mae’r wylan hon wedi ei chofnodi yng Nghlydach, yn bennaf yn y gwanwyn a’r haf. ’Does dim cofnod o’r wylan yn unman yn ystod misoedd y gaeaf, y dybiaeth yw ei bod yn dychwelyd yma i fagu.

Ar y 7fed o Fai 2017 cofnodais yr wylan ar ben to yn agos i’r ardd a llwyddais i gael llun clir ohoni er mwyn cadarnhau mai EWD oedd hi.

Ar yr un diwrnod, digwyddais wylio gwylan y penwaig arall ar ben to cyfagos. Codais y sbienddrych i’w gweld yn gliriach; ’roedd hi’n amlwg bod modrwy ar goes chwith yr aderyn hwn hefyd. Tybiais ar yr olwg gyntaf mai EWD oedd hi, ond yna sylweddolais nad yr un aderyn ydoedd – ’roedd y llythrennau ar y fodrwy yn wahanol. Yr un math o fodrwy oedd arni - lliw glas a llythrennau amlwg o liw oren ac fe dybiwn mai y llythrennau oedd ESV. Rhuthrais ar garlam i’r tŷ i nôl y camera a thynnais sawl llun a’u chwyddo ar y cyfrifiadur – ie, yn wir, ESV oedd ar y fodrwy.

Anfonais yr wybodaeth ymlaen i Grŵp Modrwyo Aber yr Hafren, gan mai hwy oedd yn defnyddio’r math yma o fodrwy. Ac ymhen peth amser cefais yr ateb yn cadarnhau mai hwy oedd wedi modrwyo’r aderyn hwn.

Yn fwy na hynny, yr oedd gwylan y penwaig ESV wedi cael ei modrwyo ar yr un diwrnod yn union ag EWD a hynny yn yr un safle yng Nghaerlŷr ym mis Rhagfyr 2009. Y cofnod blaenorol diwethaf iddynt ei dderbyn am yr aderyn hwn oedd nid nepell o Gaerloyw a hynny yn 2011. Roedd y gŵr a’i modrwyodd erbyn hyn yn tybio ei bod wedi marw. ’Does wybod ble yn y byd yr oedd wedi treulio’r holl amser ac heb gael ei chofnodi ers 2011.

’Roedd yr wybodaeth yn bwysig i’r grŵp modrwyo oherwydd un o amcanion y prosiect oedd cael syniad o hyd bywyd gwylanod a’u gallu i oroesi. Mewn e-bost ataf dywedodd y gŵr ei fod yn ddyddiol yn agor ei e-byst gan obeithio y bydd gwylan nas cofnodwyd ers tro yn cael ei gweld yn rhywle. Yr oedd hefyd yn falch iawn fy mod wedi llwyddo i gael llun o’r adar.

Y dasg o hyn ymlaen fydd cadw llygad barcud am unrhyw wylan yn yr ardal i weld a oes modrwy wedi ei gosod ar eu coesau. Tybed yn wir a oes gwylanod ychwanegol i’r ddwy yma sydd yn treulio peth o’u hamser yn ardal Clydach?

**Dewi Lewis**

## RHAGLEN Awst 2018 - Ionawr 2019

Mae'n bwysig iawn eich bod yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd er mwyn cael y manylion diweddaraf am beth fydd yn digwydd. Yn well byth, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i ni ac fe gewch neges amserol am bob digwyddiad (cyswllt pwllheli@gmail.com ).

**Medi 8:**
Taith yn ardal **Trawsfynydd** dan arweiniad **Dewi Jones** a **John Parry Williams**
Cyfarfod ym maes parcio **Yr Ysgwrn** SH722 348 **-** LL41 4UW

**Hydref 6:**
**Cynhadledd Flynyddol** ym Mhlas Tan y Bwlch

**Hydref 13:**
Taith yn ardal **Y Foryd**, Caernarfon dan arweiniad **Gareth Jones (Adar Eryri)**
Cyfarfod ger Eglwys Sant Baglan SH454 608 - LL54 5RA

**Hydref 27**:
Taith dan arweiniad **Rhys Jones** ym **Mharc Morglawdd Caergybi**
Cyfarfod ger Caffi'r Parc SH229 833 - LL65 1YG

**Tachwedd 10:**
Taith yn ardal **Pwll Llyn y Gele**, ger Dolgellau
Cyfarfod yng nghanol Bontnewydd (rhwng Dolgellau a Rhydymain)
SH771 202 - LL40 2DF

**Tachwedd 24:**
Ymweliad ag **Oriel Môn** i weld lluniau **Tunnicliffe** a thaith fer i ddilyn (yn ardal **Malltraeth**)
Cyfarfod ym maes parcio Oriel Môn, Rhosmeirch, Llangefni LL77 7TQ

**Dechrau Rhagfyr:** (dyddiad i'w gadarnhau)
Noson **Mins peis a sgwrs** - Plas Tan y Blwch

**Rhagfyr 15:**
Taith flynyddol yn ardal **Porthmadog**
Cyfarfod ger Recordiau'r Cob LL49 9NA

**Ionawr 26:**
Taith yn ardal **Pwllheli**
Cyfarfod ym Mhlas Heli, Pwllheli LL53 5YT

**Teithiau yn cychwyn am 10.30 y bore (oni nodir yn wahanol) a'r sgyrsiau am 7.30 yr hwyr.**

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**